CYFARFOD Y CYNGOR **21 MEHEFIN 2023**

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd gan aelodau.

2. **COFNODION**

Cadarnhau fod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau isod yn gofnodion cywir (copïau ynghlwm):

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor	-	10 Mai 2023	-	Cofnodion rhifau	1- 18
Y Pwyllgor Cynllunio	-	7 Mehefin 2023	-	Cofnodion rhifau	1- 3

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol	-	7 Mehefin 2023	-	Cofnodion rhifau	1- 18

3. **ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y bu'r Maer a'r Dirprwy Faer yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf (copi ynghlwm).

4. **RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Ymhellach i Gyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd yn union cyn y cyfarfod hwn, y Maer i gadarnhau'n ffurfiol benodi Rhyddfreiniwr Anrhydeddus tref y Rhyl.

5. **CYFLWYNIAD: COLEG Y RHYL, PENNAETH COLEG LLANDRILLO**

Ymhellach i gofnod rhif 60 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022, derbyn cyflwyniad gan Mr Lawrence Wood, Pennaeth Coleg Llandrillo, ynghylch datblygu Coleg Cymuneg y Rhyl.

6. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

7. **ADRODDIAD YR ARCHWILYDD MEWNOL 2022/23 (TERFYNOL)**

Ystyried a chymeradwyo adroddiad terfynol yr Archwilydd Mewnol (copi ynghlwm).

8. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23

Cadarnhau a llofnodi'r datganiad (copi ynghlwm) i'w gynnwys yn Natganiad Blynyddol Cyngor Tref y Rhyl 2022/23.

9. DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU 2022/23

Cymeradwyo a llofnodi'r Datganiad i'w gyflwyno i'r Archwilydd Allanol (copi ynghlwm).

10. EITEM GAN AELOD

Y Cynghorydd D. Simmons yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i wneud sylwadau i Gyngor Sir Ddinbych i ddynodi tir yng ngogledd y sir i'w neilltuo ar gyfer mynwent newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei lunio.

11. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

12. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion a ganlyn er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir ynddynt:

Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol	-	15 Mai 2023	-	Cofnodion rhifau 01 – 09

13. DIWEDDU'R CYFARFOD

Y Maer i gyhoeddi diwedd y cyfarfod.